

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2022

Adroddiad Cam yr Haf





RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

64/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

04/10/2022



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-80364-894-1

© Hawlfraint y Goron 2022

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2022: Adroddiad Cam yr Haf

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight



Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: twristiaethymchwil@llyw.cymru

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-80364-894-1
4 Hydref 2022
© Hawlfraint y Goron 2022



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio lle nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

1. Prif Ganfyddiadau	2
2. Cefndir a Methodoleg.....	3
3. Perfformiad dros yr Haf.....	4
4. Amseroedd Agor a Rhagolygon yn yr Hydref a'r Gaeaf	8
5. Sianeli Hyrwyddo ac Archebu	16

1. Prif Ganfyddiadau

Nifer yr ymwelwyr yn is na'r haf diwethaf ac o'u cymharu â'r cyfnod cyn COVID-19

- 1.1 Mae tua chwarter (23%) o fusnesau wedi cael mwy o gwsmeriaid yr haf hwn na'r haf diwethaf, ac mae 38% wedi cael yr un lefel. Fodd bynnag, mae 39% wedi cael llai.
- 1.2 Mae'r gymhariaeth â haf arferol cyn COVID-19 yn dangos darlun tebyg. Mae tua un o bob pump (19%) wedi cael mwy o gwsmeriaid yr haf hwn o gymharu â'r lefel arferol cyn COVID-19, ac mae tua hanner (49%) wedi cael yr un lefel. Mae tua traean (32%) â lefel is.
- 1.3 Credir bod pryderon ynghylch costau byw cynyddol yn amharu ar ymweliadau â Chymru, sydd, yn ôl gweithredwyr llety, wedi bod yn sylweddol fwy ar y funud olaf ac, mewn rhai achosion, yn fyrrach o ran hyd.

Lefelau archebu ymlaen llaw'r hydref a'r gaeaf

- 1.4 Mae llawer mwy na hanner (62%) o fusnesau yn bwriadu aros ar agor am o leiaf rywfaint o bob mis yn ystod yr hydref a'r gaeaf.
- 1.5 Ar adeg y cyfweiliadau ac ar gyfer gweithredwyr llety sy'n cymryd archebion, mae'r capasiti sydd ar gael sydd wedi'i archebu oddeutu 65% ar gyfer mis Medi, 45% ar gyfer mis Hydref, a 26% ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr.
- 1.6 Mae rhai gweithredwyr yn dweud ei bod yn anodd rhagweld prysurdeb y misoedd hyn ymlaen llaw oherwydd y duedd bresennol o archebu ar y funud olaf. Credir bod ansicrwydd ynghylch costau byw wrth inni fynd i gyfnod o gostau ynni llawer uwch yn rheswm allweddol am hynny.

Sianeli archebu

- 1.7 Ymhlith gweithredwyr hunanddarpar sy'n hyrwyddo eu busnes, mae tua traean o archebion yn dod trwy bedwar o'r prif wefannau archebu: Airbnb, TripAdvisor (*yn anuniongyrchol*), Booking.com a Vrbo.
- 1.8 Ymhlith gweithredwyr llety eraill (ac eithrio hunanddarpar) sy'n hyrwyddo eu busnes, amcangyfrifir bod 44% o archebion ar gyfartaledd yn dod trwy eu sianeli ar-lein eu hunain, daw 38% trwy sianeli ar-lein trydydd partïon, a daw 18% trwy sianeli all-lein.

Hyder cymysg ar gyfer yr hydref

- 1.9 Mae 14% o weithredwyr yn 'hyderus iawn' ynglŷn â chynnal eu busnes yn broffidiol yr hydref hwn, ac mae 36% arall yn 'eithaf hyderus'. Fodd bynnag, mae 20% 'ddim yn hyderus iawn', ac mae 10% 'ddim yn hyderus o gwbl'. Nid yw 20% yn gwybod. Mae gweithredwyr yn bryderus y bydd costau byw cynyddol yn rhwystro archebion, tra bydd eu costau cynyddol eu hunain ar yr un pryd yn ei gwneud yn anodd aros yn broffidiol.

2. Cefndir a Methodoleg

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cam hwn yn cwmpasu'r haf ac archebion ymlaen llaw am weddill y flwyddyn.

Sut y cynhaliwyd yr arolwg?


- 2.2 Rydyn ni wedi cynnal 626 o gyfweiliadau dros y ffôn. Mae canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.9\%$. Fel arfer y sampl yw 900 ond gwnaeth Llywodraeth Cymru atal gwaith maes yn dilyn newyddion am farwolaeth y Frenhines Elizabeth II a phenderfynu adrodd ar y sampl a gasglwyd hyd yma. Mae cydbwysedd y sampl fesul rhanbarth a sector yn cyd-fynd yn fras â'r hyn a gesglir fel arfer.

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	57	44	39	18	158
Llety hunanddarpar	50	51	70	29	200
Meysydd carafannau / gwersylla	40	22	28	6	96
Hostelau	1	3	-	2	6
Atyniadau	26	17	19	20	82
Gweithredwyr gweithgareddau	16	8	11	7	42
Bwytaï / tafarndai / caffis	13	12	8	9	42
Cyfanswm	203	157	175	91	626

- 2.3 Mae 70% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau, ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis, nad ydynt yn cael eu graddio.
- 2.4 Cynhaliwyd pob cyfweiliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 30 Awst a 9 Medi.

3. Perfformiad dros yr Haf

O gymharu â haf 2021 – fesul sector



Mae atyniadau a llety â gwasanaeth wedi gwneud yn weddol dda

3.1 Yn gyffredinol, mae'r sectorau atyniadau a llety â gwasanaeth wedi profi lefelau ymwelwyr yr haf hwn sy'n debyg i'r haf diwethaf. Mae'r rhesymau dros fod yn brysur, yn enwedig ymhlith atyniadau, yn cynnwys mwy o gapasiti o gymharu â'r haf diwethaf, digwyddiadau arbennig a chynnyrch gwell.

"Roeddem yn brysurach yr haf hwn na'r llynedd oherwydd i ni ailagor yr holl gyfleusterau ymwelwyr a'r siop"
Atyniad, De-orllewin

"Rydyn ni wedi cael llawer mwy o ddigwyddiadau eleni, sydd wedi dod â phobl i mewn"
Atyniad, De-ddwyrain

"Rydyn ni wedi agor cyfleuster newydd i blant felly rydyn ni'n denu mwy o deuluoedd"
Atyniad, Canolbarth

"Ym mis Gorffennaf a mis Awst, roedden ni llawn dop"
Llety â gwasanaeth, Gogledd

Ond mae pob sector arall â lefel is

3.2 Mwynhaodd meysydd carafannau a gweithredwyr hunanddarpar haf llewyrchus i dwristiaeth ddomestig y llynedd. Yr haf hwn, mae wedi bod yn anodd cyrraedd y lefelau hynny. Mae

gweithredwyr hunanddarpar wedi sylwi ar fwy o archebion ar y funud olaf, yn aml ar gyfer arhosiadau byrrach.

“Roedd yr haf diwethaf yn ddigynsail”

Parc carafannau, De-orllewin

“Mae archebion ar y funud olaf yn gyffredin eleni, gyda phobl yn chwilio am fargeinion a dim ond yn archebu tua phythefnos ymlaen llaw”

Llety hunanddarpar, Gogledd

“Rydyn ni wedi sylwi bod llawer mwy o bobl yn cymryd seibiannau byrrach”

Llety hunanddarpar, Gogledd

- 3.3 O'r diwedd, gall gweithredwyr gweithgareddau groesawu dychweliad ysgolion – marchnad allweddol i lawer, a oedd yn un o'r rhai olaf i ddod yn hygyrch eto yn ystod y cyfnod adfer yn dilyn Covid. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod eu profiad o farchnadoedd eraill yn dirywio. Credir bod hyn oherwydd costau byw cynyddol, fel sy'n wir am fwytai, tafarndai a chaffis.

“Mae popeth yn mynd yn ddrytach ac allwn ni ddim cynyddu pris popeth ar y fwydlen drwy'r amser. Heddiw rhoddais bot o de am ddim i ddau fachgen ei rannu oherwydd na allent fforddio te gyda'u brecwast os oedd yn costio mwy.”

Bwyty, Gogledd

“Mae wedi bod yn anodd yr haf hwn gyda chostau byw. Dydi pobl ddim yn gwario'r arian.”


Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

“Does dim cymaint o deuluoedd wedi bod – mae gwyliau gartref ar ben, ond mae'r ysgolion yn ôl”

Gweithredwr gweithgareddau, De-ddwyrain

O gymharu â haf 2021 – fesul sector

C1a "Faint o gwsmeriaid ydych chi wedi'u cael yr haf hwn o gymharu gyda Haf 2021?"



Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio

Maint y sampl: 588

De-ddwyrain Cymru yn mynd yn groes i'r graen

3.4 Yn gyffredinol, mae busnesau yn Ne-ddwyrain Cymru wedi llwyddo i gyfateb i haf 2021 – lefel perfformiad nad yw'n cael ei rannu gan y tri rhanbarth arall. Mae digwyddiadau mawr yng Nghaerdydd wedi helpu.

"Cyn belled â'u bod nhw'n parhau i wneud y digwyddiadau yn y castell [Caerdydd] a'r stadiwm, bydd yn dda i ni"

Bwyty, De-ddwyrain

"Mae twristiaid o Ewrop wedi dod yn ôl nawr. Dim cymaint o Americanwyr â chyn y pandemig."


Atyniad, De-ddwyrain

"Mae wedi bod yn haf prysur"

Atyniad, De-ddwyrain

O'i gymharu â haf arferol cyn COVID-19 – fesul sector

C1b "Faint o gwsmeriaid ydych chi wedi'u cael yr haf hwn o gymharu gyda Haf arferol cyn Covid?"



Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio


Maint y sampl: 534

Dim ond meysydd carafannau sydd wedi cyrraedd y lefelau arferol cyn COVID-19

3.5 Nid yw meysydd carafannau wedi gwneud yn dda iawn o gymharu â haf 2021 oherwydd bod yr haf diwethaf wedi bod yn llewyrchus iddynt, ond maent o leiaf wedi llwyddo i aros ar y lefelau cyn COVID-19 am haf 'arferol'. Fodd bynnag, nid yw pob sector arall wedi llwyddo i gyfateb i lefelau arferol cyn COVID-19 ar gyfartaledd.

O'i gymharu â haf arferol cyn COVID-19 – fesul rhanbarth

C1b "Faint o gwsmeriaid ydych chi wedi'u cael yr haf hwn o gymharu gyda Haf arferol cyn Covid?"



Maint y sampl: 534

'Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio

Dim ond De-orllewin Cymru sydd wedi cyfateb i lefelau arferol cyn COVID-19


3.6 Mae'r diwydiant twristiaeth yn Ne-orllewin Cymru wedi mwynhau haf tebyg i rai arferol cyn COVID-19, yn wahanol i'r rhanbarthau eraill.

"Mae popeth wedi mynd yn llyfn iawn"
Parc carafannau, De-orllewin

4. Amseroedd Agor a Rhagolygon yn yr Hydref a'r Gaeaf

Yn agor yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf

C2 "Gan edrych ymlaen, a oes unrhyw fisoedd yn ystod yr hydref neu'r gaeaf pan fyddwch chi'n bwriadu bod ar gau am y mis cyfan?"



Mae llawer yn bwriadu aros ar agor am o leiaf rhywfaint o bob mis

- 4.1 Mae annog twristiaeth i Gymru drwy gydol y flwyddyn yn rhan bwysig o gylch gwaith Croeso Cymru. Ar gyfer yr hydref a'r gaeaf, mae Croeso Cymru yn cynnal ymgyrch farchnata yn benodol i hyrwyddo Cymru yr adeg hon o'r flwyddyn.
- 4.2 Mae llawer mwy na hanner (62%) o fusnesau yn bwriadu aros ar agor am o leiaf rywffaint o bob mis yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Mae'r gwasanaethau sydd ar gau yn cyrraedd y brig fis Ionawr ar ôl cyfnod y Nadolig, a allai fod yn llwyddiannus, ddod i ben, ond hyd yn oed wedyn, mae'r mwyafrif (69%) o fusnesau yn bwriadu bod ar agor am o leiaf rywffaint o'r mis. Mae'r rhai gweithredwyr yn dweud eu bod yn ymestyn eu tymor eleni.

"Rydyn ni'n ymestyn y tymor eleni oherwydd ein bod yn brysurach"
Parc carafannau, De-orllewin

"Roedden ni'n arfer cau am fis neu ddau ond, eleni, am y tro cyntaf, rydyn ni ond yn cau dros wythnos y Nadolig tan 2 neu 3 Ionawr"
Bwyty, De-orllewin

"Rydyn ni'n gobeithio aros ar agor trwy'r gaeaf"
Llety â gwasanaeth, Gogledd

Fodd bynnag, gall agor yn yr hydref a'r gaeaf olygu llai o ddyddiau / oriau

- 4.3 Mae rhai busnesau yn lleihau eu horiau agor neu'r hyn a gynigir yn yr hydref a'r gaeaf oherwydd llai o alw a/neu er mwyn cadw costau i lawr.

"Dim ond o ddydd Mercher ymlaen rydyn ni'n agor nawr er mwyn cadw costau i lawr"

Atyniad, De-orllewin

“Ym mis Ionawr, byddwn ar gau ar gyfer bwyd a byddwn yn agor am 5pm tan tua 9.30pm/10pm ar gyfer diodydd”

Tafarn, Canolbarth

“Yn ystod yr hydref a'r gaeaf, mae ein horiau agor yn amrywio. Weithiau dim ond ar y penwythnosau rydyn ni ar agor; weithiau yn llai na hynny.”

Gweithredwr gweithgareddau, Canolbarth

Aros ar agor i gadw staff yn gyflogedig

- 4.4 Mae rhai busnesau ond yn aros ar agor adeg hon o'r flwyddyn er mwyn cadw eu staff. Nid ydynt yn disgwyl gwneud elw, ond eu nod yw adennill costau neu gyfyngu ar eu colledion.

“Ym mis Hydref, rydyn ni'n newid y ddeinameg i archebion corfforaethol. Mewn gwirionedd, rydyn ni ond ar agor i gadw staff. Y nod yw adennill costau.”

Gweithredwr gweithgareddau, Canolbarth

“Dydyn ni byth yn rhedeg yn broffidiol dros yr hydref. Rydyn ni'n aros ar agor i gadw ein staff. Rydyn ni'n hapus i gymryd colled o 10% ond yn fwy na hynny a byddem mewn trwbwl.”

Atyniad, De-orllewin

'Gweld sut mae'n mynd'

- 4.5 Bydd rhai gweithredwyr yn penderfynu ar fyr rybudd a ydynt am aros ar agor ai peidio yn dibynnu ar filiau ynni a lefel y galw.

“Mae p'un a ydyn ni'n cau yn dibynnu ar brisiau ynni a hefyd y nifer posib o gwsmeriaid”

Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

Gwahaniaethau yn ôl sector

- 4.6 Mae'r rhan fwyaf o feysydd carafannau'n cau yn y gaeaf – yn enwedig ym mis Ionawr a mis Chwefror, pan fydd 81% ar gau'n llawn.
- 4.7 Nid yw'r gwahaniaethau rhwng sectorau eraill yn arwyddocaol, ac eithrio gyda bwytaï / tafarndai / caffis, lle mae bron pob un (88%) yn bwriadu aros ar agor am o leiaf rhai o'r mis, ac ni fydd unrhyw un yn cau tan ar ôl y Nadolig.
- 4.8 Mae'r rheol '182 diwrnod' arfaethedig, lle mae'n rhaid i weithredwyr gyflawni 182 diwrnod o feddiannaeth mewn blwyddyn i fod yn gymwys ar gyfer ardrethi annomestig (ac felly osgoi premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi) yn achosi penbleth agor / cau i rai gweithredwyr hunanddarpar. Nid yw rhai yn gweld y gaeaf fel amser cost-effeithiol i agor, ond os nad ydynt yn ceisio, nid oes siawns realistig y byddant yn bodloni'r cwota 182 diwrnod. Dywed Llywodraeth Cymru y dylai perchnogion eiddo sy'n bwriadu bodloni'r meini prawf diwygiedig

anelu at wneud hynny yn ystod blwyddyn weithredu 2022-23, ond ni fydd cydymffurfedd â'r meini prawf yn cael ei asesu tan ar ôl 1 Ebrill 2023. Gall pob awdurdod lleol benderfynu a ddylid cyflwyno'r gorchymyn newydd ai peidio.

"Mae costau cynyddol yn golygu ei bod hi'n rhy ddrud i aros ar agor, ond allwn ni ddim cau oherwydd y cwota 182 diwrnod"

Llety hunanddarpar, Gogledd

"Ni allwn fforddio aros ar agor gyda'r costau ynni cynyddol, ond mae'n rhaid i ni aros ar agor am nifer penodol o wythnosau ar gyfer yr ardrethi busnes. Dydyn ni ddim yn gwybod beth i'w wneud."

Llety hunanddarpar, De-orllewin

Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth

4.9 De-ddwyrain Cymru yw'r rhanbarth mwyaf 'agored i fusnes' yn yr hydref a'r gaeaf. Mae'r rhan fwyaf (78%) yn bwriadu bod ar agor am o leiaf rhan o bob mis – mae hyn yn cymharu â 60% o fusnesau ar draws gweddill Cymru.

"Rydyn ni bob amser yn llawn"

Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

Rhesymau dros gau

C3 "A oes unrhyw resymau penodol pam yr ydych yn bwriadu cau am gyfnod o amser?" (yn ddigymell)



Maint y sampl: 213

Mae C3 wedi cael ei ofyn i fusnesau sy'n bwriadu cau am fis cyfan o leiaf

Diffyg galw

4.10 Dyma'r cyd-reswm mwyaf cyffredin a roddir dros gau, er ei fod yn bell o fod yr unig reswm.

“Does neb yn ein hardal ni yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr”
Atyniad, Canolbarth

“Dydyn ni ddim yn cau yn ystod y misoedd hyn fel arfer, ond oherwydd diffyg galw, byddwn ni'n gwneud hynny. Pe na bai gennym y ddwy archeb sydd gennym ym mis Hydref, byddem wedi cau bryd hynny hefyd.”
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

Cyfyngiadau trwyddedu

4.11 Efallai na fydd busnesau mewn rhai rhannau o Gymru yn cael gweithredu drwy gydol y flwyddyn oherwydd cyfyngiadau trwyddedu. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar feysydd carafannau – mae 62% o'r rhai sy'n cau am o leiaf un mis yn rhoi trwyddedu fel rheswm dros gau.

“Dim ond am naw mis y mae'r trwyddedau ar gyfer perchnogion yn caniatáu inni agor”
Parc carafannau, De-orllewin

Amser i wneud gwaith cynnal a chadw

4.12 Mae angen yr amser segur ar rai gweithredwyr ar ddiwedd tawelach y flwyddyn i wneud gwaith ar eu heiddo.

“Rydyn ni'n cau am dair wythnos ym mis Ionawr ar gyfer gwaith atgyweirio a gwaith cynnal a chadw”
Atyniad, Gogledd

Methu fforddio aros ar agor

4.13 Mae costau ynni cynyddol bellach yn rheswm i rai busnesau gau'r gaeaf hwn. Nid ydynt yn teimlo y gallant fforddio'r gwres heb ddigon o westeion sy'n talu.

“Mae biliau tanwydd ac ynni yn ormod i aros ar agor y gaeaf hwn”
Parc carafannau, Gogledd

“Dydyn ni ddim fel arfer yn cau yn ystod y gaeaf ond gyda costau ynni'n codi, byddai'n rhaid i ni godi'r pris £40 yr ystafell er mwyn gallu fforddio'r gwres ar gyfer yr ystafell frecwast ac ym mhobman arall”
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

“Mae'n ddrud gwresogi'r gwesty mewn amseroedd arferol. Nid yw cynhesu'r adeilad cyfan ar gyfer un ystafell yn unig yn gosteffeithiol. Mae gennym ni gwpl o archebion ganol mis Tachwedd, ond, ar ôl hynny, mae'n debyg y byddwn ni'n cau.”
Llety â gwasanaeth, Canolbarth


Mae angen seibiant arnom

4.14 Gall rhedeg busnes twristiaeth fod yn swydd flinedig saith diwrnod yr wythnos i rai perchnogion. Ni allant gadw hynny i fynd trwy gydol y flwyddyn. Hefyd, efallai nad twristiaeth yw eu hunig fusnes.

“Rydyn ni hefyd yn fferm weithiol felly mae angen y seibiant arnom”
Parc carafannau, Gogledd

Archebu ymlaen llaw (gweithredwyr llety)

**C4 "Gan edrych ymlaen, faint o'ch capasiti sydd wedi'i archebu ar gyfer?"
(dangos cyfrannau cyfartalog)**



Maint y sampl: 213

Mae'r ddeiliadaeth a archebir ar gyfartaledd ar gyfer pob mis i fusnesau sydd ar agor am y mis hwnnw

Lefelau archebu eithaf iach o ystyried y duedd funud olaf

4.15 Mae lefelau archebu ymlaen llaw ar gyfer misoedd yr hydref a'r gaeaf yn ymddangos yn weddol addawol o ystyried bod rhai gweithredwyr yn dweud bod llawer o gwsmeriaid yn archebu ar y funud olaf eleni. Fodd bynnag, mae costau byw yn bryder mawr ynghylch a fydd archebion ar y funud olaf yn dod i'r amlwg ac a fydd archebion cyfredol yn cael eu cyflawni heb eu canslo.

“Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw archebion ar gyfer mis Hydref, mis Tachwedd na mis Rhagfyr, ond fel arfer rydyn ni'n cael llawer o archebion ar y funud olaf felly cawn weld”

Llety hunanddarpar, Gogledd

“Yn dal i fod yn llai na 50% o gapasiti ar gyfer yr hydref ond mae archebion yn dod i mewn yn araf”

Parc carafannau, Gogledd

“Rydyn ni'n dueddol o gael y rhan fwyaf o'n harchebion o fewn saith diwrnod i gyrraedd, felly nid yw hwn [ateb i C4] yn wirioneddol gynrychioliadol [o'r ddeiliadaeth wirioneddol pan ddaw archebion ar y funud olaf i'r golwg]”

Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

“Mae gostyngiad enfawr wedi bod mewn archebion [ymlaen llaw] o gymharu â'r llynedd. Roedden ni 85% yn llawn ar gyfer mis Medi erbyn yr adeg hon ac yn llawer prysurach ar gyfer mis Hydref.”


Parc carafannau, Canolbarth

“Cawsom fis Awst da iawn ond erbyn hyn mae sion ofnadwy ynglŷn â chost a llai o incwm gwario; mae'r hydref yn dioddef. Rydyn ni eisoes yn cael pobl yn canslo ar gyfer mis Hydref am y rhesymau hynny.”


Llety â gwasanaeth, Canolbarth

4.16 Mae lefel resymol o gysondeb mewn archebion ymlaen llaw ar draws y gwahanol sectorau llety a rhanbarthau yng Nghymru. Dangosir canlyniadau manwl fesul sector a mis isod.

Archebion ymlaen llaw fesul sector



Hyder i weithredu'n broffidiol yr hydref hwn



Lefelau cymysg o hyder

4.17 Gall lefelau archebu ymlaen llaw ymddangos yn rhesymol i lawer o fusnesau, ond dim ond hanner y pethau sy'n eu hwynebu'r hydref hwn yw hyn. Gallai costau gweithredu cynyddol ei gwneud yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd.


"Nid oes amheuaeth: byddwn yn colli arian am y chwe mis nesaf. Mae hyn yn bennaf oherwydd cost tanwydd ac ynni – ymwelwyr yn dod atom ni a'n gwres a thrydan."
Atyniad, De-orllewin

"Bydd yr argyfwng costau byw yn golygu na fyddwn yn rhedeg am elw. Mae ein cigydd yn cael ei effeithio ac felly rydyn ni'n cael ein heffeithio o'i herwydd hefyd."
Tafarn, Canolbarth

"Rwy'n gallu gweld llawer o fusnesau'n mynd i'r wal oherwydd na allant fforddio rhoi'r gwres ymlaen. Byddwn yn cau ym mis Ionawr ac wedyn ei gymryd o ddydd i ddydd. Ni allwch gynllunio unrhyw beth ... Nid oes gan bobl arian. Mae popeth mor ddrud. Efallai y byddaf yn cyfyngu ar fwyd i dri diwrnod yr wythnos."
Tafarn, Gogledd

Tuedd mewn hyder

C5 Lefelau hyder ar gyfer y tymor ar ôl yr haf




Ni ofynnwyd cwestiwn am hyder ar ôl yr haf yn 2020. Bu newid hefyd yng ngeiriad y cwestiwn ar gyfer 2021 a 2022: 'Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am redeg y busnes yn broffidiol am weddill y flwyddyn / yr hydref hwn?' Fodd bynnag, yn 2018 a 2019, y geiriad oedd 'Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am dymor yr hydref?'

Hyder cymharol isel ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn

- 4.18 Mae hanner (50%) o fusnesau naill ai'n anhyderus neu ddim yn gwybod (fel arfer oherwydd ansicrwydd) am redeg y busnes yn broffidiol yr hydref hwn – canran llawer uwch nag mewn blynyddoedd diweddar eraill. Yr adeg hon y llynedd, ton newydd bosibl o COVID-19 oedd y prif bryder; mae'r siart yn adlewyrchu cymaint mwy o bryder yw costau gweithredu cynyddol erbyn hyn mewn cymhariaeth.

5. Sianeli Hyrwyddo ac Archebu

Hyrwyddo'r busnes yn weithredol



Mae'r rhan fwyaf o weithredwyr, ond nid pob un, yn hyrwyddo eu busnes


- 5.1 Mae'r rhan fwyaf o weithredwyr yn hyrwyddo eu busnes yn weithredol, ond mae rhai o'r rhai sy'n gweithredu ers blynnyddoedd lawer wedi adeiladu digon o sylfaen cwsmeriaid i ddibynnu'n llwyr ar fusnes sy'n cael ei ailadrodd a phobl yn clywed amdanynt ar lafar gwlad. Nid yw'r rhai nad ydynt yn hyrwyddo eu busnes yn weithredol wedi cael y cwestiwn sy'n weddill yn yr arolwg.

"Mae ein holl fusnes yn cael ei ailadrodd neu'n dod trwy bobl yn clywed amdanom ar lafar gwlad"

Gweithredwr gweithgareddau, De-ddwyrain

Gweithredwyr hunanddarpar – sianeli archebu

C8 "A all cwsmeriaid archebu eich llety trwy unrhyw un o'r sianeli canlynol?"



Maint y sampl: 183

Gofynnwyd C8 i weithredwyr hunanddarpar sy'n hyrwyddo eu busnes yn weithredol


Gellir archebu dros hanner trwy o leiaf un o bedair prif sianel

- 5.2 Mae dros hanner (57%) y gweithredwyr hunanddarpar sy'n hyrwyddo eu busnes yn weithredol yn hwyluso archebion trwy o leiaf un o Airbnb, Booking.com, Vrbo a TripAdvisor (sy'n caniatáu archebu anuniongyrchol trwy ddolenni ailgyfeirio er nad yw'n wefan archebu).
- 5.3 Os ailgyfrifir maint y sampl i gynnwys gweithredwyr hunanddarpar nad ydynt yn hyrwyddo eu busnes yn weithredol, gellir archebu 53% o lety hunanddarpar yn y modd hwn. Gellir archebu 7% o fusnesau hunanddarpar trwy bob un o'r pedwar o Airbnb, Booking.com, Vrbo a TripAdvisor.
- 5.4 Mae gweithredwyr sy'n defnyddio unrhyw un o'r sianeli hyn yn tueddu i gadw llygad barcud ar sut mae'n perfformio iddynt, a newid os nad yw'n foddhaol.

"Rydyn ni'n defnyddio ein gwefan ein hunain yn bennaf ond rydyn ni'n ystyried defnyddio Airbnb. O'r holl wasanaethau archebu trydydd parti, mae'n ymddangos mai nhw yw'r gorau. Rydyn ni ar wefan DewchiGonwy hefyd. Rydyn ni wedi clywed nad yw Booking.com yn ddefnyddiol iawn pan aiff rhywbeth o'i le i'r cwsmer."
Llety hunanddarpar, Gogledd

Gweithredwyr hunanddarpar – cyfran y busnes a archebwyd

C9 "Ac yn fras pa gyfran o'ch busnes sy'n dod trwy'r sianeli hynny (cyfunol)?"



Gofynnwyd C9 i'r rhai sy'n hwyluso archebion trwy o leiaf un o'r gwefannau a restrir yn C8


Lefelau amrywiol o fusnes a archebwyd trwy'r gwefannau hyn

5.5 Mae'r graddau y mae gweithredwyr hunanddarpar yn dibynnu ar Airbnb, Booking.com, Vrbo a TripAdvisor am archebion yn amrywio'n fawr. Mae'r gyfran gyfartalog amcangyfrifedig o fusnes sy'n dod drwy'r bedair sianel hon yn dibynnu ar faint y sampl:

- Tua 54% o archebion ar gyfer y rhai sy'n defnyddio o leiaf un o'r bedair sianel
- Tua 31% o archebion ar gyfer y rhai sy'n hyrwyddo eu busnes yn weithredol (p'un ai trwy unrhyw un o'r bedair sianel ai peidio)
- Tua 28% o archebion ar gyfer yr holl weithredwyr hunanddarpar (p'un a ydynt yn hyrwyddo eu busnes ai peidio)

Gweithredwyr llety eraill – sianeli hyrwyddo

C10 "Trwy ba un o'r sianelau canlynol y caiff eich busnes ei hyrwyddo?"



Gofynnwyd C10 i wasanaethau llety â gwasanaeth, meysydd carafannau a hosteli sy'n hyrwyddo eu busnes yn weithredol

Defnyddir ystod eang o sianeli

- 5.6 Gellir grwpio sianeli hyrwyddo i dri categori fel y dangosir yn y siart uchod. Mae pob un o'r tri math o sianel yn cael eu defnyddio'n eang, ac nid ydynt yn cael eu defnyddio'n unigol – dywed 63% o ymatebwyr eu bod yn defnyddio pob un o'r tri math.
- 5.7 Dywed rhai eu bod yn ddewisol ynghylch pryd y maent yn defnyddio sianeli ar-lein trydydd parti, h.y. pan fyddant yn ei chael yn anodd llenwi'r gwelyau, neu y tu allan i gyfnodau pan fyddant yn gwybod y byddant yn llawn beth bynnag. Dyma enghraifft o pam y gall fod yn dda defnyddio mwy nag un sianel.

“Rydyn ni’n symud i Booking.com pan fyddwn yn ei chael yn anodd iawn cael yr ystafelloedd wedi’u harchebu, ond mae’n anodd talu’r comisiwn uchel”


Llety hunanddarpar, Gogledd

“Dydyn ni ddim yn mynd ar Pitchup ar benwythnosau gwyliau banc prysur”

Parc carafannau, Canolbarth

Gweithredwyr llety eraill – cyfran yr archebion

**C11 "Yn fras, pa gyfran o'ch holl archebion fydddech chi'n dweud sy'n dod trwy bob un o'r tair sianel hyn:"
(dangos cyfrannau cyfartalog)**



Gofynnwyd C11 i wasanaethau llety â gwasanaeth, meysydd carafannau a hosteli sy'n hyrwyddo eu busnes yn weithredol


Cydbwysedd manwl ar-lein rhwng eich sianeli eich hun a sianeli trydydd partiön

5.8 Mae'r rhan fwyaf (82%) o archebion gyda gweithredwyr sy'n hyrwyddo eu busnes yn weithredol yn cael eu gwneud ar-lein. Mae eu sianeli ar-lein eu hunain a sianeli trydydd partiön yn cyfrannu tua run faint â'i gilydd. Mae llawer yn dymuno y gallent droi'r fantol yn fwy o blaid eu sianeli eu hunain er mwyn osgoi talu comisiwn, y maent yn aml yn ei ystyried yn uchel, ond mae'n haws dweud na gwneud.

"Gobeithio lansio ein gwefan a'n system archebu ein hunain yn y misoedd nesaf gan fod comisiwn y trydydd partiön yn ddrudd iawn"
Llety â gwasanaeth, Gogledd

Gweithredwyr llety eraill – gwefannau trydydd partïon penodol a ddefnyddir

C12 "Trwy ba drydydd partïon y caiff eich busnes ei hyrwyddo ar-lein?" (yn ddigymell)



Gofynnwyd C12 i wasanaethau llety â gwasanaeth, meysydd carafannau a hosteli sy'n hyrwyddo trwy drydydd partïon ar-lein

Ychydig o chwaraewyr dominyddol; yna yn dameidiog iawn


- 5.9 Yn y sector llety â gwasanaeth, Booking.com sydd amlycaf – caiff ei ddefnyddio gan 90% o weithredwyr â gwasanaeth sy'n hyrwyddo drwy drydydd partïon ar-lein. Mae Expedia hefyd yn bwerus ac mae'n cael ei ddefnyddio gan 47% o ymatebwyr llety â gwasanaeth.
- 5.10 Ymhlith meysydd carafannau, mae Pitchup yn sefyll allan. Mae'n cael ei ddefnyddio gan 35% o feysydd carafannau sy'n hyrwyddo drwy drydydd partïon ar-lein – ymhell o flaen unrhyw wefan arall a grybwyllwyd.
- 5.11 Ar wahân i'r ychydig chwaraewyr mawr hyn, mae llawer o wefannau eraill – mae'r siart uchod yn rhestru pob un sydd wedi'u crybwyll gan o leiaf 2% o'r ymatebwyr.

"Mae gan Booking.com gyrhaeddiad byd-eang ac amlygiad gwych. Rydyn ni'n gweld llawer mwy o westeion tramor eleni, felly mae talu'r 15% [comisiwn] yn werth chweil."
Llety â gwasanaeth, Gogledd

"Eleni rydyn ni wedi ei chael yn llawer haws cymryd mwy o'n harchebion trwy Pitchup oherwydd bod cwsmeriaid yn cwyno am unrhyw beth a phopeth. Rydyn ni wedi sylwi bod archebion trwy drydydd parti yn osgoi'r math hwn o beth."
Maes carafannau, Gogledd

Gweithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety – cymryd archebion

C13 "Ydych chi'n cymryd archebion?"



Gofynnwyd C13 i weithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety sy'n hyrwyddo eu busnes yn weithredol

Ymateb cymysg yn ôl sector


5.12 Mae pob gweithredwr gweithgareddau (100%) a'r rhan fwyaf (80%) o fwytai, tafarndai a chaffis sy'n hyrwyddo eu busnes yn weithredol yn cymryd archebion. Mae llawer (69%) o atyniadau hefyd yn gwneud hynny, ond nid yw rhai yn gwneud hynny. Ymhlith y rhesymau dros beidio â chymryd archebion mae peidio â gweld yr angen i wneud hynny, yn enwedig gan fod protocolau COVID-19 wedi'u codi bellach.

"Rydyn ni'n mynd i gael gwared ar y [system] archebion ymlaen llaw yn fuan gan mai dim ond 5% o'n cwsmeriaid sy'n archebu ymlaen llaw"
Atyniad, De-orllewin

"Nid oes angen i ni gymryd archebion mwyach gan fod cyfyngiadau wedi'u codi"
Atyniad, De-ddwyrain

Gweithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety – cyfran yr archebion ymlaen llaw

C14 "Yn fras, pa gyfran o'ch cwsmeriaid sy'n archebu ymlaen llaw cyn cyrraedd?"



Gofynnwyd C14 i weithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety sy'n cymryd archebion

Lefelau amrywiol o gwsmeriaid nad ydynt wedi archebu yn ôl sector

5.13 Ar gyfer gweithredwyr gweithgareddau, archebu ymlaen llaw yw'r drefn arferol. Dywed y rhan fwyaf (86%) fod o leiaf dri chwarter eu cwsmeriaid yn archebu ymlaen llaw.

"Dim ond ar gyfer grwpiau mawr y byddwn yn cymryd archebion – grwpiau corfforaethol neu ysgolion. Maen nhw fel arfer yn ymwelwyr cyson ac yn archebu dros y ffôn."

Gweithredwr gweithgareddau, Canolbarth


5.14 Mae atyniadau yn fwy tebygol o fod wedi denu cwsmeriaid nad ydynt wedi archebu: dywed tua hanner (49%) fod llai na chwarter eu cwsmeriaid yn archebu ymlaen llaw. Ar gyfer bwytaï, tafarndai a chaffis, cymysg iawn yw'r ymatebion. Mae rhai yn dweud eu bod yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn neu'r wythnos.

"Yn ystod yr wythnos, mae tua 40% yn archebu ymlaen llaw ond, ar benwythnosau, mae'n debycach i 80%"

Tafarn, De-orllewin

Gweithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety – cyfran yr archebion fesul sianel

**C15 "Ac yn fras pa gyfran o'r archebion a wneir ymlaen llaw sy'n dod drwodd:"
(dangos cyfrannau cyfartalog)**



Maint y
sampl: 110

Gofynnwyd C15 i weithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety sy'n cymryd archebion

Cydbwysedd gwahanol iawn i weithredwyr llety

5.15 Tra bo rhai gwefannau archebu ar-lein trydydd parti yn dominyddu yn y sectorau llety, nid yw hyn yn wir yn y sectorau nad ydynt yn rhai llety. Mae'r rhan fwyaf (90%) o archebion yn dod yn uniongyrchol i'r gweithredwr, boed trwy eu sianeli ar-lein eu hunain neu sianeli all-lein, megis dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Yn gyffredinol, ni chredir bod sianeli ar-lein trydydd parti yn angenrheidiol nac yn ddymunol.

"Pum wythnos yn ôl, gwnaethon ni roi'r gorau i ddefnyddio Book Your Table oherwydd y gost"

Tafarn, De-ddwyrain

“Fe wnaethon ni gofrestru ar gyfer sianel archebu ar-lein ond canfuwyd nad oedd angen i ni ei defnyddio. Dim ond ar gyfer grwpiau rydyn ni’n cymryd archebion ac mae bron pawb sy’n archebu yn anfon e-bost atom.”

Atyniad, De-orllewin

- 5.16 Ymhlith y rhai sy’n defnyddio gwefannau trydydd parti ar-lein, mae’r farchnad yn dameidiog iawn. Mae tri o bob 25 o ymatebwyr yn defnyddio Booking.com. Fel arall, dim ond BookingHound ac Eola sydd wedi cael eu crybwyll gan fwy nag un ymatebydd (ddwywaith yr un).

“Rydyn ni’n defnyddio Eola bellach i gymryd archebion. Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Gall pobl fod yn fwy hunangynhaliol a gwneud y cyfan eu hunain ar-lein.”

Gweithredwr gweithgareddau, De-ddwyrain

Pwysigrwydd ffynonellau all-lein

- 5.17 Mae archebu all-lein yn amlwg yn fwy cyffredin ymhlith gweithredwyr nad ydynt yn rhai llety na gweithredwyr llety. Mae gan rai gweithredwyr gweithgareddau lawer o fusnes hirdymor sy’n cael ei ailadrodd fel hyn er enghraifft.

“Mae llawer o’n hysgolion wedi bod yn dod ers blynyddoedd – maen nhw fel ffrindiau, felly bydan nhw’n codi’r ffôn. Dydyn ni ddim yn dda iawn gyda cyfryngau cymdeithasol i ddweud y gwir.”


Gweithredwr gweithgareddau, Gogledd

“Mae’r rhan fwyaf o’n harchebion yn cael eu hailadrodd neu’n cael eu gwneud trwy bobl yn clywed amdanom ar lafar gwlad. Pan fydd grŵp yn gadael, byddwn ni’n ceisio cael dyddiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf oddi wrthynt.”

Gweithredwr gweithgareddau, canolbarth

Pob gweithredwr – newidiadau mewn sianeli hyrwyddo

C17 "A ydych chi wedi newid y sianeli rydych chi'n eu defnyddio i hyrwyddo'ch busnes neu'r ffocws ar rai sianeli ers ailagor ar ol y pandemig?"




Gofynnwyd C17 i weithredwyr ym mhob sector sy'n hyrwyddo eu busnes yn weithredol

Yn parhau fel o'r blaen ar y cyfan

- 5.18 Mae'r rhan fwyaf (81%) o weithredwyr sy'n hyrwyddo eu busnes yn weithredol yn gwneud hynny yn yr un modd â chyn y pandemig. Mae hyn yn gyson yn wir ar draws pob sector a rhanbarth.
- 5.19 Gofynnwyd cwestiynau pellach i'r rhai sy'n hyrwyddo eu busnes yn wahanol...

Sianeli newydd



Symud tuag at sianeli ar-lein

- 5.20 Os yw busnesau'n hyrwyddo trwy sianeli newydd, mae'r rhain bron bob tro ar-lein, p'un a ydynt yn rhai eu hunain neu rai trydydd parti. Mewn rhai achosion, nid oedd y busnes yn weithredol ar-lein cyn y pandemig ond mae yn weithredol ar-lein nawr. Mewn achosion eraill, maent wedi adolygu'r platfformau ar-lein sy'n cael eu defnyddio ganddynt ac wedi dewis un gwahanol.


"Ar ôl y pandemig, symudon ni i Booking.com i gael mwy o archebion"
Llety hunanddarpar, Gogledd

"Rydyn ni'n symud i ffwrdd o wefannau llai fel bedandbreakfast.co.uk gan nad ydyn nhw werth yr arian i hysbysebu arnynt"
Llety â gwasanaeth, Gogledd

"Roedden ni'n arfer bod ar Expedia ond nid oedd y cwsmeriaid yn ddibynadwy iawn ac nid oedd Expedia o gymorth mawr"
Llety â gwasanaeth, Gogledd

Yr un sianeli ond ffocws gwahanol

C19 "Pa sianeli ydych chi nawr yn rhoi mwy o ffocws arnyn nhw o gymharu ag o'r blaen?"



Gofynnwyd C19 i'r rhai sy'n newid eu ffocws gyda sianeli presennol yn C17

Symud tuag at eu sianeli ar-lein eu hunain

5.21 Pan fydd busnesau wedi newid eu ffocws ar sianeli presennol, maent yn fwyaf tebygol o geisio defnyddio eu sianeli ar-lein eu hunain fwyfwy. Mae rhai bellach yn defnyddio eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn llawer mwy gweithredol nag o'r blaen.

"Rydyn ni'n hyrwyddo trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn fwy nag yr oedden ni'n arfer ei wneud"

Atyniad, De-ddwyrain

"Ers y pandemig, rydyn ni'n gwneud llawer mwy o bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Rydyn ni'n postio swyddi gwag a diweddariadau."


Llety hunanddarpar, Gogledd

"Rydyn ni yn y broses o newid. Rydyn ni'n defnyddio Facebook yn fwy ac yn sefydlu cyfrif Instagram ar gyfer pobl nad ydyn nhw'n ddeinosoriaid, fel fi!"

Caffi, Canolbarth

Newidiadau mewn sianeli archebu

C20 "Ac a ydych chi wedi newid neu ail-ffocysu'r sianeli rydych chi'n eu defnyddio i dderbyn archebion ers ailagor ar ol y pandemig?"



Gofynnwyd C20 i'r rhai sy'n hyrwyddo eu busnes yn weithredol ac yn cymryd archebion

Dim newid yn y sianeli archebu ar y cyfan

- 5.22 Mae'r canlyniadau i C20 (archebion) yn debyg iawn i'r canlyniadau i C17 (hyrwyddo). Mae'r rhan fwyaf o weithredwyr yn parhau i gymryd archebion drwy'r un sianeli â chyn y pandemig.

Dechreuodd rhai atyniadau gymryd archebion am y tro cyntaf oherwydd COVID-19

- 5.23 Mae atyniadau'n sefyll allan fel rhai sy'n fwy tebygol o fod wedi newid neu wedi ailffocysu sianeli archebu ers ailagor – mae tua chwarter (23%) wedi gwneud newidiadau.
- 5.24 Cyn COVID-19, roedd llawer o atyniadau'n fodlon gadael i ymwelwyr gyrraedd heb archebu ymlaen llaw. Roedd rheolau COVID-19 yn ymwneud â chadw pellter cymdeithasol wedyn yn golygu bod angen i lawer gyfyngu ar gapasiti, ac felly roedd angen archebu lle ymlaen llaw. Mae rhai bellach yn hoffi eu system newydd oherwydd ei bod yn helpu gyda'r gwaith o gynllunio ymlaen llaw. Dywed eraill eu bod bellach wedi cael gwared arni oherwydd eu bod yn meddwl nad oes angen archebu ymlaen llaw mwyach. Mae'r safbwyntiau hyn yn berthnasol i sectorau eraill hefyd.

“Rydyn ni eisiau i bobl archebu ar-lein. Yna gallwn gyfyngu ar faint o giwio ac mae'n helpu gyda lefelau staffio, felly rydyn ni wedi bod yn annog pobl i archebu ymlaen llaw.”

Atyniad, De-orllewin

“Rydyn ni'n cael system archebu ar-lein a fydd gymaint yn haws ac yn golygu nad ydych chi'n teimlo fel ysgrifennydd pan fyddwch chi ar shift”

Tafarn, Canolbarth

“Roedd gennym ni system archebu ar-lein o'r blaen ond, erbyn hyn, os bydd rhywun yn ffonio i archebu, byddwn yn eu cyfeirio at y system ar-lein”

Gweithredwr gweithgareddau, Canolbarth

“Cafodd system archebu ei chyflwyno yn ystod y pandemig ond gwnaethon ni gael gwared arni pan nad oedd ei hangen mwyach”

Atyniad, De-ddwyrain

Gwthio eu sianeli eu hunain yn fwy

- 5.25 Mae rhai busnesau yn awyddus i symud oddi wrth eu dibyniaeth ar drydydd partïon ar-lein a chynhyrchu archebion trwy eu platfformau eu hunain, lle nad oes rhaid iddynt dalu comisiwn. Yn ystod y cyfnod hwn o gostau cynyddol, mae gweithredwyr yn awyddus i ddal gafael ar ba bynnag refeniw y gallant.

“Rydyn ni'n cynnig gostyngiad i gwsmeriaid sy'n dychwelyd sy'n archebu'n uniongyrchol trwom ni”

Llety hunanddarpar, Gogledd

*“Rydyn ni’n ceisio osgoi defnyddio sianeli ar-lein trydydd parti oherwydd eu bod yn
cymryd cyfran mor fawr”*

Llety â gwasanaeth, De-orllewin

*“Rydyn ni wedi ailwampio ein gwefan ein hunain yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
Rydyn ni bellach yn hyrwyddo ein gwefan ein hunain yn fwy.”*

Parc carafannau, Gogledd